**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 15 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Carol Ellis (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Marion Bateman, Andy Dunbobbin, Gladys Healey, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Kevin Hughes, Rita Johnson, Dave Mackie, Hilary McGuill, Martin White, Ian Smith a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Mike Allport.

**AMNEWID:** Cynghorydd David Cox (ar ran Mike Lowe)

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu, Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu, ac Uwch Reolwr Gwasanaethau Integredig

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Swyddog y Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei fod wedi'i gadarnhau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Annibynnol. Gan fod y Cynghorydd Carol Ellis wedi'i phenodi i'r rôl hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cynghorydd Carol Ellis fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin y Cynghorydd Gladys Healey fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Marion Bateman.

Ar ôl pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Gladys Healey yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Gladys Healey yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. **<u>DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)</u>**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

4. **<u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2017.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 2.05 pm)

..................................................

**Cadeirydd**